# ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL DRAFFT

## Diben yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

Mae Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 ('Gorchymyn Eithriadau 2010') yn nodi'r amgylchiadau lle nad oes angen cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ystyried y newidiadau arfaethedig sydd wedi'u nodi yn y Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) drafft 2026 ('Gorchymyn Eithriadau drafft 2026') a fyddai'n disodli 'Gorchymyn Eithriadau 2010'.

Mae wyth cynnig yn cael eu hystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn; dim ond dau opsiwn sydd wedi'u cyflwyno ar gyfer pob cynnig. A'r rheswm am hynny yw bod gwaith ymgysylltu helaeth wedi'i gynnal cyn yr ymgynghoriad ffurfiol. Nod y gwaith ymgysylltu hwnnw oedd trafod yr opsiynau a nodi opsiwn ffafriol sy'n bodloni gofynion ystod eang o randdeiliaid.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn amlinellu'r erthyglau o Orchymyn Eithriadau 2010 yr ydym yn bwriadu eu newid, gan nodi costau, manteision a risgiau cadw pob erthygl fel y'u cyflwynir yng Ngorchymyn Eithriadau 2010 (Opsiwn 1).

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn wedyn yn amlinellu'r newidiadau arfaethedig a adlewyrchir yng Ngorchymyn Eithriadau drafft 2026, gan nodi costau, manteision a risgiau newid yr eithriad (Opsiwn 2).

## Cyfyngiadau Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

Bydd opsiwn 2 pob cynnig yn effeithio ar ddarparwyr yn y sectorau gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau sydd heb eu cofrestru ar hyn o bryd. Ychydig a wyddys am faint ac ehangder y rhan honno o'r sectorau, nac am eu harferion a'u gweithrediadau presennol. Mae'n amlwg y bydd amrywiaeth sylweddol ymhlith y darparwyr, o ran eu darpariaeth ac unrhyw newidiadau y byddai'n ofynnol iddynt eu gwneud pe baent yn cael eu cofrestru. Yn ogystal, oherwydd diffyg gwybodaeth am y darparwyr hyn, mae gwybodaeth gyfyngedig ynglŷn â sut y byddant yn ymateb i’r cynigion, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar Arolygiaeth Gofal Cymru. O ganlyniad, mae'n anodd amcangyfrif effaith y cynigion hyn.

## CYNNIG 1

***Erthygl 3: Nid yw person yn gweithredu fel gwarchodwr plant pan fo'r gofal yn cael ei ddarparu gan riant, rhiant maeth, neu berthynas i'r plentyn.***

### Opsiwn 1: Gwneud dim

Mae'r opsiwn hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r geiriad yn aros fel y mae.

**Cost:**
Dyma'r opsiwn sylfaenol, ac felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol i randdeiliaid.

**Manteision:**
Nid oes unrhyw fanteision i randdeiliaid wedi'u nodi mewn perthynas â'r opsiwn hwn.

**Risgiau:**
Ar hyn o bryd, mae rhywfaint o anghysondeb rhwng yr erthygl a chanllawiau ymarfer Cynnig Gofal Plant Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae hyn yn arwain at ddryswch i rai gwarchodwyr plant sy'n ansicr a ydynt yn gallu gweithredu fel gwarchodwyr plant i berthnasau, ac ar ran rhieni wrth geisio deall a allant fanteisio ar wasanaethau perthynas fel gwarchodwr plant i'w plentyn.Yn ogystal, efallai nad yw'n glir i aelodau'r teulu nad oes angen na modd iddynt gofrestru fel gwarchodwr plant er mwyn gofalu am berthynas sy'n byw yn yr un fangre ddomestig ac mae'r gwarchod plant yn digwydd yng nghartref y plentyn.

### Opsiwn 2: Diwygio'r geiriad i egluro'r amgylchiadau pan fo person wedi'i eithrio rhag cofrestru am ei fod yn gofalu am berthynas

O dan yr opsiwn hwn, byddai'r eithriad yn cael ei ddiwygio i nodi bod perthnasau[1] ac unigolion sy'n byw yn yr un cartref â'r plentyn yn gallu gweithredu fel gwarchodwyr plant cofrestredig ar gyfer plant sy'n perthyn iddynt neu blant y maent yn byw gyda nhw, ar yr amod bod pob un o'r amodau canlynol yn cael eu bodloni:

- Nid ydynt yn rhiant i'r plentyn ac nid oes ganddynt gyfrifoldeb rhiant am y plentyn,
- Nid nhw yw gofalwr maeth y plentyn,
- Nid yw'r gofal yn digwydd yng nghartref y plentyn, ac
- Mae'r gofal ar gael i blant nad ydynt yn perthyn iddynt.

**Cost:**
Nid oes unrhyw gostau wedi'u nodi i randdeiliaid mewn perthynas â'r opsiwn hwn.

[1] Ystyr "perthynas" ("relative"), mewn perthynas â phlentyn, yw llys-riant, tad-cu/taid neu fam-gu/nain, brawd, chwaer, ewythr, modryb, neu gefnder cyfan/cyfnither gyfan (gan gynnwys unrhyw berson sydd yn y berthynas honno yn rhinwedd priodas neu bartneriaeth sifil neu berthynas deuluol barhaus).

**Manteision:**
Drwy aileirio i egluro'r amgylchiadau pan fo rhywun wedi'i eithrio rhag cofrestru fel gwarchodwr plant wrth ofalu am berthynas, byddai'r Gorchymyn yn cyd-fynd â chanllawiau Cynnig Gofal Plant Cymru ac arferion Arolygiaeth Gofal Cymru. Byddai hyn yn rhoi eglurder i warchodwyr plant a rhieni ynglŷn â'r trefniadau perthnasol sy'n galluogi gwarchodwr plant cofrestredig i ofalu am berthynas. Bydd hefyd yn nodi'n glir yr amgylchiadau pan nad oes angen neu fodd i rywun gofrestru fel gwarchodwr plant er mwyn gofalu am berthynas neu blentyn y maent yn byw gyda nhw.

**Risgiau:**
Nid oes unrhyw risgiau wedi'u nodi i randdeiliaid mewn perthynas â'r opsiwn hwn.

**<u>Casgliad</u>**
Yn seiliedig ar werthusiad o gostau, manteision a risgiau'r ddau opsiwn, opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

**<u>CYNNIG 2</u>**

**Erthygl 6:** ***Nid yw person yn gweithredu fel gwarchodwr plant os dim ond rhwng 6pm ar un diwrnod a 2am y diwrnod canlynol y darperir y gofal.***

***Erthygl 13: Nid yw person yn darparu gofal dydd os dim ond rhwng 6pm a 2am y mae'r gofal yn cael ei ddarparu, mae'n digwydd mewn gwesty, tŷ llety neu sefydliad tebyg arall ar gyfer plentyn sy'n aros yno, ac mae'r person sy'n darparu'r gofal yn gwneud hynny ar gyfer dim mwy na dau gleient gwahanol ar yr un pryd.***

***Erthygl 5: Nid yw person yn gweithredu fel gwarchodwr plant os caiff y gofal ei ddarparu gan berson sy'n cael ei gyflogi'n uniongyrchol gan rieni hyd at ddau deulu (fel nani neu au pair) ac mae'r gofal yn cael ei ddarparu yng nghartref y naill deulu neu'r llall.***

**<u>Opsiwn 1: Gwneud dim</u>**

Mae'r opsiwn hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r erthyglau yn aros fel y maent.

**Cost:**
Dyma’r opsiwn sylfaenol, ac felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol i randdeiliaid.

**Manteision:**
Bydd rhieni yn parhau i allu gwneud trefniadau i'w plant gael gofal gan nanis, au pairs a charcwyr yn unol â thelerau'r eithriadau hyn. Mae hyn yn caniatáu i rieni ddewis a gwneud trefniadau hyblyg a fyddai'n addas i'w teulu.

**Risgiau:**
Trwy gadw'r tair erthygl hyn ar gyfer darparwyr sy'n gofalu am blant yn eu cartref teuluol eu hunain neu mewn cartref teuluol arall, gwesty, tŷ llety, neu sefydliad tebyg, nid yw'r eithriadau ar gyfer y darparwyr hyn yn syml ac maent yn agored i ddehongliad amrywiol. Mae telerau'r eithriadau yn wahanol ar gyfer y rheini a gyflogir fel nanis ac au pairs a'r rhai y mae eu gwasanaethau yn cael eu defnyddio fel carcwyr. Gall y cafeat ar gyfer y cyfnod o amser gyfyngu ar allu rhieni i gyflogi rhywun i ofalu am eu plentyn y tu hwnt i 6pm-2am ar gyfer carco a allai gyfyngu ar eu dewisiadau gofal plant.

**<u>Opsiwn 2: Cysoni'r eithriadau mewn perthynas â nanis, au pairs a charcwyr.</u>**

O dan yr opsiwn hwn, byddai'r terfyn amser o 6pm-2am ar gyfer carcwyr yn cael ei ddileu ac, fel nanis ac au pairs, gallent ofalu am ddim mwy na dau deulu ar yr un pryd. Byddai angen darparu'r gofal a ddarperir gan y carcwr, y nani neu'r au pair yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng nghartref y naill deulu neu'r llall neu mewn mangre annomestig (gan gynnwys gwesty neu dŷ llety) y mae'r rhieni wedi'u dewis. Byddai trefniadau gofal yn cael eu gwneud rhwng y rhieni a'r carcwr, y nani neu'r au pair.

**Cost:**
Efallai y bydd darparwyr sy'n bodloni'r meini prawf yn gymwys i ymuno â Chynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2021. Y gost bresennol i ymuno yw £55. Fodd bynnag, mae ymuno â'r cynllun yn wirfoddol ac felly mae'r gost yn daladwy o'u gwirfodd. Er y byddai cost i Arolygiaeth Gofal Cymru weinyddu unrhyw geisiadau newydd, byddai'r ffi o leiaf yn gwneud iawn am y gost weinyddol yn rhannol. Ond mae disgwyl i nifer y ceisiadau fod yn isel beth bynnag.

**Manteision:**
Caiff eglurder a symlrwydd eu cyflawni trwy sicrhau cydraddoldeb i nanis, au pairs a charcwyr o ran nifer y teuluoedd, lleoliad y gofal, a phennu bod y trefniadau'n cael eu gwneud rhwng y rhieni a'r darparwr. Bydd hyn yn cael gwared ar y posibilrwydd o beri dryswch pe bai rhieni yn dymuno defnyddio trefniadau hyblyg ar gyfer y gofal. Bydd hyn hefyd yn dileu unrhyw gyfyngiadau ar amser ar gyfer carco sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd i rieni, ac yn diwallu anghenion gofal plant mewn cymdeithas sy'n newid yn well. Drwy ddefnyddio darparwr sydd wedi'i gymeradwyo o dan Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru), efallai y bydd teuluoedd cymwys yn gallu hawlio elfen costau Gofal Plant Credyd Cynhwysol neu Gofal Plant Di-dreth i helpu i dalu am gost y gofal. Wrth i fwy o ddarparwyr ddod yn gymwys ar gyfer y cynllun cymeradwyo, gallai mwy o rieni fanteisio ar y cymorth ariannol hwn.

**Risgiau:**
Nid oes unrhyw risgiau wedi'u nodi i opsiwn 2.

**<u>Casgliad</u>**
Yn seiliedig ar werthusiad o gostau, manteision a risgiau'r ddau opsiwn, opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

**CYNNIG 3**

***Erthygl 16: Nid yw person yn darparu gwarchod plant na gofal dydd os yw'r person yn darparu gwasanaeth ieuenctid i bobl ifanc sydd wedi cyrraedd 11 oed, ac os yw'r gofal a ddarperir yn gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth ieuenctid hwnnw.***

## Opsiwn 1: Gwneud dim

Mae'r opsiwn hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r erthygl yn aros fel y mae.

**Cost:**
Dyma'r opsiwn sylfaenol, ac felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol i randdeiliaid. Mae gwasanaethau ieuenctid ar gael i bobl ifanc yn rhad ac am ddim neu am gost isel.

**Manteision:**
Nid oes unrhyw fanteision i randdeiliaid wedi'u nodi mewn perthynas â'r opsiwn hwn.

**Risgiau:**
Ni all darparwyr gwasanaethau ieuenctid gynnig gwasanaethau ieuenctid wrth bontio i blant 10 oed o dan yr opsiwn hwn. Maent felly wedi'u cyfyngu i weithredu o dan eithriadau eraill sy'n gosod cyfyngiadau ar hyd ac amlder y ddarpariaeth. Mae hyn yn lleihau'r hygyrchedd i bobl ifanc sy'n elwa ar ddefnyddio gwasanaethau ieuenctid wrth bontio.

## Opsiwn 2: Eithrio darpariaeth gwasanaethau ieuenctid wrth bontio, pan fo pobl ifanc wedi cyrraedd 10 oed, rhag gorfod cofrestru fel darparwyr gofal dydd

O dan yr opsiwn hwn, byddai eithriad yn cael ei wneud i eithrio gwasanaeth ieuenctid sy'n darparu gwasanaethau ieuenctid wrth bontio i blant sy'n 10 oed a hŷn.

**Cost:**
Nid oes unrhyw gostau wedi'u nodi i opsiwn dau. Mae gwasanaethau ieuenctid ar gael i bobl ifanc am ddim neu am gost isel. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y gallai fod costau cynyddol ar gyfer darparu gwasanaeth i'r garfan ychwanegol hon. Ond byddai'r ddarpariaeth yn ddewisol, ac felly byddai ysgwyddo'r gost hefyd yn seiliedig ar y dewis hwnnw.

**Manteision:**
Bydd darparwyr gwasanaethau ieuenctid yn gallu cynnig gwasanaethau ieuenctid wrth bontio i blant 10 oed o dan yr opsiwn hwn heb fod angen iddynt gofrestru fel darparwr gofal dydd. Ni fydd yn ofynnol iddynt gydymffurfio ag eithriadau sy'n ymwneud ag amser ac amlder y ddarpariaeth, ac felly gallant ehangu'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig. Bydd hyn yn cynnig mwy o gyfleoedd i bobl ifanc gael eu cyflwyno i'r gwasanaethau ieuenctid wrth bontio sydd ar gael iddynt.

**Risgiau:**
Bydd angen i ddarparwyr reoli unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â phobl ifanc o bob oed yn mynychu gwasanaethau ieuenctid. Mae rhanddeiliaid wedi rhoi gwybod inni y byddai'r sesiynau pontio yn benodol i blant 10 oed. Ac felly byddai hynny'n lleihau'r risg sy'n gysylltiedig â chael plant 10 oed yn cymysgu â phobl ifanc hŷn.

**Casgliad**
Yn seiliedig ar werthusiad o gostau, manteision a risgiau'r ddau opsiwn, opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

**CYNNIG 4**

***Erthygl 14: Nid yw person yn darparu gofal dydd pan ddarperir y gofal i blant mewn ysgol, ac mae'r ddarpariaeth gofal yn digwydd yn achlysurol mewn cysylltiad â darparu addysg.***

**Opsiwn 1: Gwneud dim**

Mae'r opsiwn hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r erthygl yn aros fel y mae.

**Cost:**
Dyma'r opsiwn sylfaenol, ac felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol i randdeiliaid.

**Manteision:**
Byddai ysgolion yn parhau i allu cynnig addysg i blant o bob oedran heb fod yn ofynnol iddynt gofrestru os yw'r ddarpariaeth gofal yn gysylltiedig â darparu addysg.

**Risgiau:**
Mae unrhyw blant 2 oed ac iau sy'n mynychu'r ysgol yn debygol o angen lefel o ofal sy'n gyson â phlant o'r un oed sy'n mynychu lleoliadau gofal dydd cofrestredig. Mae eu hanghenion gofal yn debygol o fod yn sylweddol, ac mae'n annhebygol bod unrhyw ofal y maen nhw'n ei gael yn eilbeth i'r addysg. Fel arfer, mae angen gofal dydd penodedig ar blant o'r oedran hwn. Gallai hynny gynnwys arferion gofal fel newid cewynnau, amserlen cysgu, a chynorthwyo plant wrth fwyta. Oherwydd bod ysgolion wedi'u heithrio rhag cofrestru, ni fyddai darpariaeth y gofal hwn i blant sy'n mynychu'r ysgol yn cael ei harolygu yn yr un ffordd ag y byddai'r gofal i blant sy'n mynychu lleoliad gofal plant cofrestredig am yr un cyfnod o amser.

**Opsiwn 2: Diwygio'r eithriad fel bod darpariaeth addysgol i blant 3 oed neu'n hŷn yn unig yn cael ei heithrio.**

O dan yr opsiwn hwn, byddai'r eithriad yn cael ei ddiwygio i ganiatáu iddo fod yn berthnasol dim ond pan fo plant 3 oed neu hŷn yn mynychu'r ysgol ar gyfer

darpariaeth addysgol. Byddai'n ofynnol i unrhyw ysgol sy'n dymuno cynnig darpariaeth i blant 2 oed neu iau gofrestru'r rhan honno o'u hysgol fel darparwr gofal dydd.

**Cost:**
O dan yr opsiwn hwn, os oedd darparwyr yn dymuno parhau i gynnig darpariaeth i blant 2 oed neu iau, byddai'n ofynnol iddynt gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru fel darparwr gofal dydd.

*Costau i ddarparwyr*
Er mwyn bodloni'r gofynion a nodir yn Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir, efallai y bydd angen i ddarparwyr ddiwygio elfennau o'u darpariaeth. Bydd y diwygiadau sy'n ofynnol yn amrywio ar draws darparwyr, yn dibynnu ar eu model gweithredu presennol, cymwysterau staff ac addasrwydd y fangre. Felly, mae'n anodd amcangyfrif cost y cynnig hwn ledled Cymru.

Mae ffigurau sy'n ymwneud â chostau posibl darparwr heb ei gofrestru wedi cael eu darparu gan Coram Pacey, Clybiau Plant Cymru a Blynyddoedd Cynnar Cymru. Cyflwynir yr wybodaeth hon yn Atodiad A.

Os yw lleoliad eisoes yn cynnig darpariaeth sy'n unol â Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir, yr unig gostau y gall eu hysgwyddo fyddai wrth gael atgyfeiriad meddygol am £50 a thystysgrif DBS am £65 os nad oes gan y lleoliad un sydd wedi'i ddyddio o fewn y 3 mis diwethaf, neu os nad yw'n tanysgrifio i'r gwasanaeth diweddaru. Mewn cyferbyniad, mae'r ffigurau'n awgrymu y bydd mwy o gostau gan ddarparwr sydd angen gwneud diwygiadau sylweddol i'w ddarpariaeth, er mwyn bodloni'r gofynion. Mae'r amrywiad sylweddol hwn yn seiliedig ar ystod eang o newidynnau a'r cyfyngiad o fod yn ddibynnol ar sefyllfa benodol pob darparwr.

*Costau i Arolygiaeth Gofal Cymru*
Byddai cost weinyddol o tua £3,100 i Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer pob darparwr sy'n cofrestru, gyda chost weinyddol barhaus o tua £1,100 ar gyfer pob darparwr, y flwyddyn.

**Manteision:**
Byddai'n ofynnol i ysgolion sy'n cynnig darpariaeth i blant 2 oed ac iau gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru fel eu bod yn cyfateb i ddarparwyr gofal plant cofrestredig sy'n darparu gwasanaeth i blant o'r un oed ac sydd â'r un lefel o angen. Bydd darpariaeth gofal y plant hyn yn cael ei harolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru, a byddai'n ofynnol i ddarparwyr fodloni safonau a fyddai'n sicrhau bod y ddarpariaeth yn addas.

**Risgiau:**
Ar hyn o bryd, mae pum ysgol annibynnol yn cynnig addysg ffurfiol i blant iau na 3 oed. Risg yr opsiwn hwn yw y gallai'r ysgolion hyn gael gwared ar y ddarpariaeth hon a darparu addysg i blant 3 oed a hŷn yn unig. Byddai hyn yn lleihau'r dewis i rieni sy'n dymuno i'w plentyn fynychu'r lleoliadau hyn.

**Casgliad**
Yn seiliedig ar werthusiad o gostau, manteision a risgiau'r ddau opsiwn, opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

**CYNNIG 5**

***Erthygl 15: Nid yw person yn darparu gofal dydd os yw'r gofalwr yn darparu gweithgareddau coetsio neu ddysgu mewn dim mwy na dau o'r categorïau canlynol o weithgareddau:***

- ***Chwaraeon***
- ***Celfyddydau perfformio***
- ***Celf a chrefft***
- ***Cymorth gyda gwaith cartref neu astudiaethau ysgol***
- ***Astudiaethau crefyddol neu ddiwylliannol.***

**Opsiwn 1: Gwneud dim**

Mae'r opsiwn hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r erthygl yn aros fel y mae.

**Cost:**
Dyma'r opsiwn sylfaenol, ac felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol i randdeiliaid.

**Manteision:**
Byddai darparwyr sy'n cynnig gweithgareddau coetsio a dysgu yn parhau i allu cynnig hyd at ddau fath o weithgareddau gwahanol. Mae hyn yn sicrhau bod dewis a chyfleoedd i blant ddatblygu eu sgiliau.

**Risgiau:**
Mae gwahaniaeth main iawn rhwng yr hyn a gynigir gan ddarparwyr cofrestredig a darparwyr heb eu cofrestru. Mae hyn yn creu gwahaniaeth yn y sector o ran y safonau y disgwylir i ddarparwyr tebyg eu bodloni. Nid yw'r mathau presennol o weithgareddau yn eglur, sy'n arwain at ddryswch a/neu amwysedd. Nid ydynt yn adlewyrchu'n glir y ddarpariaeth sy'n bodoli yn y sector ar hyn o bryd.

**Opsiwn 2: Diwygio'r eithriad fel bod darpariaeth sy'n cynnig un math o weithgaredd coetsio neu ddysgu yn unig yn cael ei heithrio. Diwygio'r categorïau o weithgareddau.**

O dan yr opsiwn hwn, byddai'r eithriad yn cael ei ddiwygio i ganiatáu iddo fod yn berthnasol os bydd darparwyr yn cynnig coetsio a dysgu mewn un math o weithgaredd yn unig. Bydd y rhestr o fathau o weithgareddau hefyd yn cael ei diwygio.

**Cost:**
O dan yr opsiwn hwn, os yw darparwyr yn dymuno parhau i gynnig dau fath o weithgareddau, byddai'n ofynnol iddynt gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru fel darparwr gofal dydd.

*Costau i ddarparwyr*
Er mwyn bodloni'r gofynion a nodir yn Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir, efallai y bydd angen i ddarparwyr ddiwygio elfennau o'u darpariaeth. Bydd y diwygiadau sy'n ofynnol yn amrywio ar draws darparwyr, yn dibynnu ar eu model gweithredu presennol, cymwysterau staff ac addasrwydd y fangre. Felly, mae'n anodd amcangyfrif cost y cynnig hwn ledled Cymru.

Mae ffigurau sy'n ymwneud â chostau posibl darparwr heb ei gofrestru wedi cael eu darparu gan Coram Pacey, Clybiau Plant Cymru a Blynyddoedd Cynnar Cymru. Cyflwynir yr wybodaeth hon yn Atodiad A.

Os yw lleoliad eisoes yn cynnig darpariaeth sy'n unol â Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir, yr unig gostau y gall eu hysgwyddo fyddai wrth gael atgyfeiriad meddygol am £50 a thystysgrif DBS am £65 os nad oes gan y lleoliad un sydd wedi'i ddyddio o fewn y 3 mis diwethaf, neu nad yw'n tanysgrifio i'r gwasanaeth diweddaru. Mewn cyferbyniad, mae'r ffigurau'n awgrymu y bydd gan ddarparwr sydd angen gwneud diwygiadau sylweddol i'w ddarpariaeth, er mwyn bodloni'r gofynion, fwy o gostau. Mae'r amrywiad sylweddol hwn yn seiliedig ar ystod eang o newidynnau a'r cyfyngiad o fod yn ddibynnol ar sefyllfa benodol pob darparwr.

*Costau i Arolygiaeth Gofal Cymru*
Byddai cost weinyddol o tua £3,100 i Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer pob darparwr sy'n cofrestru, gyda chost weinyddol barhaus o tua £1,100 ar gyfer pob darparwr, y flwyddyn.

**Manteision:**
Bydd gwahaniaeth cliriach rhwng yr hyn a gynigir gan ddarparwyr sy'n cynnig coetsio a dysgu a darparwyr gofal dydd. Bydd y darparwyr sy'n cynnig coetsio a dysgu ac sy'n cael eu heithrio yn fwy penodol o ran yr hyn y maent yn ei gynnig, gan y byddant yn cynnig dim ond un math o weithgaredd, a thrwy hynny yn creu'r arbenigedd cliriach o ran coetsio a dysgu y mae'r erthygl yn ceisio ei heithrio. Bydd y diwygiad yn sicrhau bod dewis a chyfleoedd i blant ddatblygu eu sgiliau o hyd. Bydd diwygio'r mathau o weithgareddau yn adlewyrchu'n gliriach y ddarpariaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd. Bydd y categori addysg yn cyd-fynd â themâu'r Cwricwlwm i Gymru, ac felly bydd yn creu gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n dod o fewn yr eithriad hwn.

**Risgiau:**
Gall darparwyr sy'n cynnig gweithgareddau o fwy nag un math o weithgaredd ddewis peidio â gweithredu eu darpariaeth mwyach. Gallai hyn leihau'r dewis i blant a'u rhieni sy'n dymuno i'w plentyn fynychu'r lleoliadau hyn. Efallai y bydd llai o gyfleoedd i blant gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau mewn un lleoliad neu sesiwn.

**Casgliad**
Yn seiliedig ar werthusiad o gostau, manteision a risgiau'r ddau opsiwn, opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

## CYNNIG 6

***Erthygl 15: Nid yw person yn darparu gofal dydd pan fo'r gofalwr yn cynnig gweithgareddau coetsio neu ddysgu. Nid yw'r eithriad yn berthnasol os yw'r plant o dan 5 oed ac yno am fwy na phedair awr y dydd.***

### Opsiwn 1: Gwneud dim

Mae'r opsiwn hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r erthygl yn aros fel y mae.

**Cost:**
Dyma’r opsiwn sylfaenol, ac felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol i randdeiliaid.

**Manteision:**
Ar hyn o bryd, gall darparwyr gynnig gweithgareddau coetsio a dysgu i blant o dan 5 oed am hyd at bedair awr y dydd. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i rieni ddefnyddio'r gwasanaethau hyn er mwyn mynd i'r gwaith, ac i blant ymgolli eu hunain yn y gweithgareddau.

**Risgiau:**
Mae ein gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi dangos ei bod yn annhebygol y gall plant 4 oed neu iau ganolbwyntio ar weithgaredd coetsio neu ddysgu am hyd at bedair awr. Ar ben hynny, o ystyried cyfnod eu datblygiad a'u hanghenion gofal, roedd rhanddeiliaid o'r farn ei bod yn annhebygol y gallai'r gofal sydd ei angen ar blant gael ei ystyried yn eilbeth i'r coetsio neu'r dysgu dros y cyfnod hwn.

### Opsiwn 2: Diwygio'r eithriad fel y gall plant 4 oed ac iau fanteisio ar ddarpariaeth coetsio neu ddysgu am ddim mwy na dwy awr y dydd, oni bai eu bod yng nghwmni eu rhiant neu warcheidwad cyfreithiol – ac yn yr achos hwnnw nid yw'r cyfyngiad amser yn berthnasol.

O dan yr opsiwn hwn, os yw plentyn 4 oed neu'n iau yn mynychu lleoliad â darpariaeth coetsio neu ddysgu heb ei riant neu ofalwr am fwy na dwy awr mewn diwrnod, byddai'n ofynnol i'r darparwr gofrestru fel darparwr gofal dydd. Gall darparwyr gynnig sawl sesiwn, ond dim ond hyd at ddwy awr y dydd y caiff pob plentyn 4 oed ac iau fod yn bresennol oni bai bod eu rhiant gyda nhw. Ni fyddai'r rheol hon yn berthnasol i blant 5 oed a hŷn, a all fod yno am gyfnod amhenodol o amser. Mae'n effeithio ar goetsio a dysgu dim ond pan nad yw'r rhieni yn bresennol.

**Cost:**
O dan yr opsiwn hwn, os yw darparwyr yn dymuno parhau i gynnig coetsio a dysgu i blant 4 oed ac iau am gyfnod sy'n fwy na dwy awr y dydd heb riant yn bresennol, byddai'n ofynnol iddynt gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru fel darparwr gofal dydd.

*Costau i ddarparwyr*
Er mwyn bodloni'r gofynion a nodir yn Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir, efallai y bydd angen i ddarparwyr ddiwygio elfennau o'u darpariaeth. Bydd y diwygiadau sy'n ofynnol yn amrywio ar draws darparwyr, yn dibynnu ar eu model gweithredu presennol, cymwysterau staff ac addasrwydd y fangre. Felly, mae'n anodd amcangyfrif cost y cynnig hwn ledled Cymru.

Mae ffigurau sy'n ymwneud â chostau posibl darparwr heb ei gofrestru wedi cael eu darparu gan Coram Pacey, Clybiau Plant Cymru a Blynyddoedd Cynnar Cymru. Cyflwynir yr wybodaeth hon yn Atodiad A.

Os yw lleoliad eisoes yn cynnig darpariaeth sy'n unol â Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir, yr unig gostau y gall eu hysgwyddo fyddai wrth gael atgyfeiriad meddygol am £50 a thystysgrif DBS am £65 os nad oes gan y lleoliad un sydd wedi'i ddyddio o fewn y 3 mis diwethaf, neu nad yw'n tanysgrifio i'r gwasanaeth diweddaru. Mewn cyferbyniad, mae'r ffigurau'n awgrymu y bydd gan ddarparwr sydd angen gwneud diwygiadau sylweddol i'w ddarpariaeth, er mwyn bodloni'r gofynion, fwy o gostau. Mae'r amrywiad sylweddol hwn yn seiliedig ar ystod eang o newidynnau a'r cyfyngiad o fod yn ddibynnol ar sefyllfa benodol pob darparwr.

*Costau i Arolygiaeth Gofal Cymru*
Byddai cost weinyddol o tua £3,100 i Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer pob darparwr sy'n cofrestru, gyda chost weinyddol barhaus o tua £1,100 ar gyfer pob darparwr, y flwyddyn.

**Manteision:**
Mae lleihau'r amser y gall plant 4 oed ac iau fynychu lleoliad sy'n darparu coetsio a dysgu heb i'w rhiant neu warcheidwad fod yn bresennol yn cydnabod cyfnod eu datblygiad. Nododd rhanddeiliaid fod dwy awr yn agosach at y cyfnod o amser sy'n briodol i blentyn o'r oedran hwn ymgymryd â gweithgaredd. Trwy gadw ond diwygio'r eithriad, gall rhieni parhau i fanteisio ar gyfleoedd i'w plant elwa ar weithgareddau heb iddynt fod yn bresennol, er bod hynny am gyfnod byrrach o amser.

**Risgiau:**
Efallai na fydd rhai darparwyr sy'n cynnig coetsio a dysgu i blant 4 oed ac iau am hyd at bedair awr yn dymuno parhau i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw am gyfnod byrrach o amser, ac felly gallant roi'r gorau i'w darpariaeth i blant o'r oedran hwn. Byddai hyn yn lleihau'r cyfleoedd i blant 4 oed ac iau ymgymryd â gweithgareddau coetsio a dysgu.

## Casgliad
Yn seiliedig ar werthusiad o gostau, manteision a risgiau'r ddau opsiwn, opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

**CYNNIG 7**

***Erthyglau 4 a 10: Nid yw person yn gweithredu fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd os nad yw'r cyfnod gofal o fewn unrhyw ddiwrnod yn dod i gyfanswm o fwy na dwy awr.***

**Opsiwn 1: Gwneud dim**

Mae'r opsiwn hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. Nid yw'n ystyried y defnydd o'r eithriadau gan ddarparwyr y mae eu cofrestriad wedi'u hatal dros dro gan Arolygiaeth Gofal Cymru, drwy eu proses 'Sicrhau Gwelliant a Gorfodi'. O dan yr opsiwn hwn, byddai darparwyr y mae eu cofrestriad wedi'u hatal dros dro yn cael diwygio eu darpariaeth i weithredu o dan yr eithriadau yn ystod cyfnod eu hataliad dros dro.

**Cost:**
Dyma’r opsiwn sylfaenol, ac felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol i randdeiliaid.

**Manteision:**
Nid oes unrhyw fanteision i randdeiliaid wedi'u nodi mewn perthynas â'r opsiwn hwn.

**Risgiau:**
Gall Arolygiaeth Gofal Cymru atal cofrestriad darparwr dros dro pan fo pryderon diogelu a phan fydd ganddynt reswm rhesymol i gredu y gallai'r ddarpariaeth gofal roi plant mewn perygl o niwed. Trwy gadw'r eithriadau heb gyfyngiadau, byddai darparwyr sydd wedi'u hatal dros dro yn gallu diwygio eu darpariaeth a pharhau i weithredu o dan yr eithriadau yn ystod cyfnod eu hataliad dros dro. Gallai hyn roi plant mewn perygl.

**Opsiwn 2: Diwygio'r eithriadau sy'n ymwneud â gofal am ddwy awr neu lai fel nad ydynt yn berthnasol pan fo cofrestriad darparwr ag Arolygiaeth Gofal Cymru wedi'i atal dros dro.**

O dan yr opsiwn hwn, os caiff darparwr cofrestredig ei atal dros dro drwy broses 'Sicrhau Gwelliant a Gorfodi' Arolygiaeth Gofal Cymru, ni fyddent yn gallu gweithredu o dan yr eithriadau hyn yn ystod cyfnod eu hataliad dros dro.

**Cost:**
O dan yr opsiwn hwn, bydd darparwyr sy'n cael eu hatal dros dro yn colli eu hincwm yn llwyr a gallai eu cyflogeion golli eu swyddi. Yn ogystal, bydd yn ofynnol i rieni ddod o hyd i ofal plant newydd, ac felly byddant yn wynebu costau treulio'r amser i wneud hynny.

**Manteision:**
Bydd plant yn cael eu diogelu yn well pan fydd darparwyr wedi'u hatal dros dro drwy broses orfodi. Ni fydd darparwyr sydd wedi'u hatal dros dro yn gallu parhau i weithredu o dan yr eithriadau, ac felly ni allent gynnig gofal a allai fod yn anniogel i blant.

**Risgiau:**
Nid oes unrhyw risgiau wedi'u nodi i'r opsiwn hwn.

**Casgliad**
Yn seiliedig ar werthusiad o gostau, manteision a risgiau'r ddau opsiwn, opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

**CYNNIG 8 (heb ei gynnwys yng Ngorchymyn Eithriadau drafft 2026)**

***Erthyglau 4 a 10: Nid yw person yn gweithredu fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd os nad yw'r cyfnod gofal o fewn unrhyw ddiwrnod yn dod i gyfanswm o fwy na dwy awr.***

***Erthygl 9: Nid yw person yn darparu gofal dydd pan ddarperir y gofal gan y person hwnnw yn y fangre o dan sylw ar nifer llai na 6 o ddiwrnodau mewn unrhyw flwyddyn galendr, a bod y person hwnnw wedi hysbysu Gweinidogion Cymru mewn ysgrifen cyn defnyddio'r fangre o dan sylw am y tro cyntaf yn y flwyddyn honno.***

***Erthygl 15: Nid yw person yn darparu gofal dydd pan fo'r gofalwr yn cynnig gweithgareddau coetsio neu ddysgu. Nid yw'r eithriad yn berthnasol os yw'r plant o dan 5 oed ac yno am fwy na phedair awr y dydd.***

**Opsiwn 1: Gwneud dim**

**Cost:**
Dyma’r opsiwn sylfaenol, ac felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol i randdeiliaid.

**Manteision:**
Ar hyn o bryd, gall darparwyr gynnig gofal i blant o bob oedran hyd at a chan gynnwys dwy awr y dydd ac am bum diwrnod y flwyddyn heb gofrestru. Gall darparwyr sy'n cynnig coetsio a dysgu weithredu am hyd at bedair awr y dydd i blant o dan 5 oed. Mae'r eithriadau hyn yn rhoi cyfleoedd i rieni ddefnyddio'r gwasanaethau hyn er mwyn treulio eu hamser fel y dymunant ac i blant ymgolli eu hunain yn y gweithgareddau. Mae rhai lleoliadau newydd yn defnyddio'r eithriadau hyn i dreialu eu gwasanaeth cyn symud ymlaen i sefydlu darpariaeth gofrestredig neu tra bo eu cais yn cael ei brosesu.

**Risgiau:**
Mae gan blant 2 oed ac iau fwy o anghenion gofal na phlant hŷn. Mae rhai rhanddeiliaid yn pryderu nad oes sicrwydd ansawdd bod yr anghenion hyn yn cael eu diwallu mewn lleoliadau lle mae'r eithriadau hyn yn cael eu defnyddio.

**<u>Opsiwn 2: Diwygio'r eithriadau sy'n ymwneud â dwy awr, pum diwrnod a gweithgareddau coetsio a dysgu fel eu bod yn eithrio darpariaeth dim ond pan fo'r plant sy'n mynychu lleoliad yn 3 oed a hŷn.</u>**

O dan yr opsiwn hwn, bydd yr eithriadau sy'n ymwneud â dwy awr, pum diwrnod a gweithgareddau coetsio a dysgu yn cael eu diwygio fel na fyddent yn berthnasol os bydd y darparwr yn gofalu am blant 2 oed ac iau ac nad yw rhiant yn bresennol. Ystyriaeth ychwanegol yw a ddylai'r rhieni sy'n aros ar y safle ddylanwadu ar y mater ynghylch a ddylai fod yn ofynnol i ddarparwr gofrestru yn yr amgylchiadau hynny.

Mae'r cynnig hwn yn ychwanegol at gynigion 5 a 6. Er nad yw'r cynigion hyn yn cael eu cynnwys yng Ngorchymyn Eithriadau Drafft 2026, hoffai Llywodraeth Cymru ofyn am farn y cyhoedd mewn perthynas â'r newidiadau posibl hyn.

Os oes cefnogaeth o blaid y cynnig y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr gwarchod plant a gofal dydd i blant 2 oed ac iau gofrestru, hyd yn oed am lai na dwy awr, bydd hyn yn cael ei ystyried ochr yn ochr â'r cynnig na ddylai'r eithriad ar gyfer coetsio a dysgu fod yn berthnasol pan fydd plant 4 oed neu iau yn mynychu lleoliad am fwy na dwy awr mewn diwrnod.

Os yw'r ddau gynnig yn cael eu mabwysiadu, byddai angen i ddarparwyr coetsio a dysgu gofrestru os ydynt yn gofalu am blant 2 oed neu'n iau, tra gallai plant 3 a 4 oed fod mewn darpariaeth o'r fath am hyd at ddwy awr heb riant. Caiff yr ymatebion eu dadansoddi'n ofalus.

**Cost:**
O dan yr opsiwn hwn, os yw darparwyr yn dymuno parhau i ofalu am blant 2 oed ac iau heb riant yn bresennol, byddai'n ofynnol iddynt gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru fel darparwr gofal dydd.

*Costau i ddarparwyr*
Er mwyn bodloni'r gofynion a nodir yn Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir, efallai y bydd angen i ddarparwyr ddiwygio elfennau o'u darpariaeth. Bydd y diwygiadau sy'n ofynnol yn amrywio ar draws darparwyr, yn dibynnu ar eu model gweithredu presennol, cymwysterau staff ac addasrwydd y fangre. Felly, mae'n anodd amcangyfrif cost y cynnig hwn ledled Cymru.

Mae ffigurau sy'n ymwneud â chostau posibl darparwr heb ei gofrestru wedi cael eu darparu gan Coram Pacey, Clybiau Plant Cymru a Blynyddoedd Cynnar Cymru. Cyflwynir yr wybodaeth hon yn Atodiad A.

Os yw lleoliad eisoes yn cynnig darpariaeth sy'n unol â Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir, yr unig gostau y gall eu hysgwyddo fyddai wrth gael atgyfeiriad meddygol am £50 a thystysgrif DBS am £65 os nad oes gan y lleoliad un sydd wedi'i ddyddio o fewn y 3 mis diwethaf, neu nad yw'n tanysgrifio i'r gwasanaeth diweddaru. Mewn cyferbyniad, mae'r ffigurau'n awgrymu y bydd gan ddarparwr sydd angen gwneud diwygiadau sylweddol i'w ddarpariaeth, er mwyn bodloni'r gofynion, fwy o gostau.

Mae'r amrywiad sylweddol hwn yn seiliedig ar ystod eang o newidynnau a'r cyfyngiad o fod yn ddibynnol ar sefyllfa benodol pob darparwr.

*Costau i Arolygiaeth Gofal Cymru*
Byddai cost weinyddol o tua £3,100 i Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer pob darparwr sy'n cofrestru, gyda chost weinyddol barhaus o tua £1,100 ar gyfer pob darparwr, y flwyddyn.

**Manteision:**
Mae dileu'r opsiwn i blant 2 oed ac iau fod mewn darpariaeth anghofrestredig heb riant yn bresennol, yn cydnabod cyfnod eu datblygiad a'u hanghenion gofal cynyddol. Bydd yn ofynnol i unrhyw ddarparwr sy'n parhau i gynnig gofal i blant o'r oedran hwn gofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd, ac felly byddant yn cael eu harolygu i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion ansawdd. O bosibl, gallai ei gwneud yn ofynnol i leoliadau gofal plant 2 oed ac iau gofrestru arwain at eu gweld yn gweithredu am gyfnodau hirach gan na fyddent bellach yn gyfyngedig i ddwy awr neu bum diwrnod. Gall cofrestru alluogi darparwyr i gyflwyno rhaglenni a ariennir fel Cynnig Gofal Plant Cymru a Dechrau'n Deg, a gall alluogi teuluoedd cymwys i hawlio Gofal Plant Di-dreth neu Gofal Plant Credyd Cynhwysol, yn dibynnu ar yr oriau gweithredol.

**Risgiau:**
O wneud yr eithriadau yn amherthnasol pan fo plant 2 oed ac iau yn mynychu lleoliad heb riant, efallai y bydd gostyngiad yn y maint o ddarpariaeth sydd ar gael. Efallai na fydd darparwyr sy'n cynnig y gofal hwn yn dymuno ymgymryd â baich cofrestru, ac felly gallant roi terfyn ar eu darpariaeth. Risg ychwanegol yw y gallent aros ar agor ond diwygio eu gwasanaeth i ddarparu ar gyfer plant 3 oed a hŷn yn unig. Gallai hyn leihau'r opsiynau i blant 2 oed ac iau, gan gyfyngu ar gyfleoedd cymdeithasol a datblygiadol ac effeithio ar les plant a theuluoedd. Yn ogystal, bydd y cyfle i leoliadau newydd ddefnyddio'r eithriadau hyn i dreialu eu gwasanaeth cyn symud ymlaen i sefydlu darpariaeth gofrestredig, neu tra bo eu cais yn cael ei brosesu, yn cael ei ddileu. Gall hyn hefyd arwain at ostyngiad yn y ddarpariaeth gan y gall darparwyr benderfynu peidio â chymryd y risg o agor lleoliad gan nad ydynt wedi gallu canfod a yw'n gynaliadwy yn y farchnad. Risg arall yw y gall y costau gweithredu cynyddol sy'n gysylltiedig â rhedeg lleoliad cofrestredig achosi i ddarparwyr drosglwyddo'r costau hyn i deuluoedd, gan wneud y ddarpariaeth yn llai fforddiadwy a hygyrch.

**<u>Casgliad</u>**
Yn seiliedig ar werthusiad o gostau, manteision a risgiau'r ddau opsiwn, ar hyn o bryd nid oes gan Lywodraeth Cymru opsiwn a ffefrir. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i gasglu gwybodaeth a barn gan y cyhoedd ynglŷn â'r newid arfaethedig hwn, gan geisio gwybodaeth am resymeg eu barn ac effaith bosibl y newid arfaethedig hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn dadansoddi'r wybodaeth hon ar ôl yr ymgynghoriad ac yna'n argymell opsiwn a ffefrir yn dilyn hynny.

## ASESU'R GYSTADLEUAETH

Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth wedi ei gynnal. Yn gyffredinol, ni ddisgwylir i'r eithriadau a gynigir gael effaith negyddol ar gystadleuaeth yng Nghymru na chystadleurwydd y rhan fwyaf o fusnesau. Mae'r sector yn cynnwys mentrau bach a chanolig, gyda rhywfaint o ddarpariaeth hefyd trwy'r sector gwirfoddol ac elusennol. Nid oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad, ac mae gan y tri chwmni mwyaf ar y cyd lai na 50% o gyfran y farchnad. Nid yw'r sector yn profi newid technolegol cyflym.

Gallai'r cynigion effeithio ar rai darparwyr oherwydd eu bod yn cael eu cynnwys o dan delerau cofrestru, ac yn sgil hynny yn golygu costau sy'n ymwneud â'r galwadau ychwanegol i fodloni'r gofynion a nodir yn Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 a Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir. Gallai hyn arwain at rywfaint o gwtogi mewn rhai rhannau o'r farchnad. Fodd bynnag, ni fyddai costau sefydlu a chostau rheolaidd ar gyfer darparwyr posibl neu newydd yn uwch na chostau'r darparwyr cofrestredig presennol. Byddai unrhyw gostau ychwanegol yn dibynnu ar amgylchiadau unigol pob darparwr a'r diwygiadau y byddai'n ofynnol iddynt eu gwneud er mwyn bodloni gofynion rheoleiddio cofrestru.

## ADOLYGIAD ÔL-WEITHREDU

Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr wybodaeth a gasglwyd a barn y cyhoedd ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei dadansoddi a gellir diwygio Gorchymyn Eithriadau drafft 2026 ymhellach yn ôl yr angen. Wedyn bydd adolygiad ôl-weithredol priodol yn cael ei roi ar waith i sicrhau bod y meysydd gweithredu cywir yn cael eu hadolygu.

**Atodiad 1**

Enghreifftiau o ddiwygiadau a allai fod angen eu gwneud, a'r costau a allai fod yn gysylltiedig â nhw:

| Gofyniad | Cost (Ariannol ac Amser) |
|---|---|
| Cymwysterau | Efallai y bydd yn ofynnol i staff feddu ar gymwysterau i fodloni'r gofynion a nodir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.<br><br>Costau ariannol amrywiol yn dibynnu ar y cymhwyster sy'n ofynnol ac ar y cyllid sydd ar gael<br><br>Hefyd costau amser sy'n ymwneud â'r cyfnod o amser sydd ei angen i ymgymryd â'r hyfforddiant gofynnol |
| Recriwtio | Amcangyfrifir cost o £200 i hysbysebu ar gyfer staff newydd |
| Cymarebau / Recriwtio Staff | Efallai y bydd angen staff ychwanegol i fodloni'r cymarebau gofynnol a nodir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol<br><br>Cyfradd fesul awr tua £13 |
| Hyfforddiant diogelu | Bydd angen hyfforddiant diogelu ar bob aelod o staff ar lefel a bennir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol<br><br>Costau ariannol yn amrywio o fod yn rhad ac am ddim i £180, yn dibynnu ar y lefel sy'n ofynnol ac ar y cyllid sydd ar gael – mae angen adnewyddu'r cymhwyster, ac felly mae costau adnewyddu yn rhai rheolaidd<br><br>Cost yr amser a dreulir i ymgymryd â hyfforddiant |
| Hyfforddiant hylendid bwyd | Bydd angen hyfforddiant hylendid bwyd ar y rhai sy'n gyfrifol am baratoi a thrin bwyd<br><br>Costau ariannol sy'n amrywio o fod yn rhad ac am ddim i £30, yn dibynnu ar y darparwr ac ar y cyllid sydd ar gael – mae angen adnewyddu'r cymhwyster, ac felly mae costau adnewyddu yn rhai rheolaidd<br><br>Cost yr amser a dreulir i ymgymryd â hyfforddiant |
| Hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig | Mae angen cymhwyster cymorth cyntaf pediatrig ar bob aelod o staff ar lefel a bennir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol |

| | |
|---|---|
| | Costau ariannol sy'n amrywio o fod yn rhad ac am ddim i £132, yn dibynnu ar gyllid a hygyrchedd – mae angen adnewyddu'r cymhwyster, ac felly mae costau adnewyddu yn rhai rheolaidd<br><br>Cost yr amser a dreulir i ymgymryd â hyfforddiant |
| Gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) | £65 fesul aelod o staff - mae angen adnewyddu'r dystysgrif, felly mae'r gost yn rheolaidd |
| Gwiriad meddygol | Tua £50 – mae'r costau'n amrywio yn ôl y feddygfa |
| Addasu adeiladau | Costau ariannol amrywiol yn dibynnu ar y sefyllfa<br><br>Gallai'r costau gynnwys y canlynol (ymysg eraill):<br>- Gofynion iechyd yr amgylchedd<br>- Gosod offer diogelwch tân ychwanegol<br>- Toiledau/sinciau ychwanegol |
| Yswiriant – adeilad a cherbyd | Bydd yn amrywio yn ôl y darparwr a lefel yr yswiriant sydd ei angen - cost reolaidd - amcangyfrif o £600 y flwyddyn |
| Tystysgrif gwiriad diogelwch system wresogi | Tua £100 y flwyddyn |
| Cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth | £52 - £78 y flwyddyn |
| Statws Cyfreithiol | O fod yn rhad ac am ddim i £65 yn dibynnu ar y statws cyfreithiol a ddewiswyd i weithredu oddi tano |
| Adnoddau<br>(Ddim yn orfodol) | Amcangyfrif o £5000 fel cost untro gyda chyllideb flynyddol ar gyfer ôl traul<br><br>Gallai'r costau gynnwys y canlynol (ymysg eraill):<br>- Cyfarpar cegin<br>- Storfa y gellir ei chloi<br>- Technoleg Gwybodaeth<br>- Disgwylir i adnoddau chwarae fod o safon benodol ac iddynt gael eu newid yn amlach |
| Cymorth gan gyrff ymbarél<br>(Ddim yn orfodol) | O fod yn rhad ac am ddim i £300 y flwyddyn |
| Aelodaeth corff ymbarél<br>(Ddim yn orfodol) | Amrywiol – o £30 i £155 y flwyddyn |

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau Cyfrifyddiaeth<br>(Ddim yn orfodol) | Amcangyfrif o £500 y flwyddyn |
| Ffeilio adroddiadau / cyfrifon<br>(Ddim yn orfodol) | O rad ac am ddim i £62 y flwyddyn |

Ffynhonnell: Ffigurau a ddarparwyd gan Coram Pacey, Clybiau Plant Cymru a Blynyddoedd Cynnar Cymru